# Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol 2019-22
# Crynodeb



**Cyfnod: 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2020**

## RHAGAIR

Mae’n bleser gen i gyflwyno adroddiad cynnydd (yn cwmpasu’r cyfnod o 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2020) ar sail ein perfformiad yn erbyn y tri amcan llesiant a gynhwyswyd gennym yn ein Cynllun Corfforaethol 2019-2022.

At ei gilydd, yn ystod y flwyddyn, fe wnaethon ni gynnydd da ar ein taith at wella llesiant yn yr ardal. Er enghraifft, ym mis Medi 2019, etholodd pobl ifanc Castell-nedd Port Talbot eu Maer Ieuenctid a’u Dirprwy Faer Ieuenctid cyntaf erioed, a fydd yn llais i’r holl blant a phobl ifanc ar draws y fwrdeistref sirol. Ym mis Mai 2019, fe gynhalion ni Wobrau Dinasyddion cyntaf Maer Castell-nedd Port Talbot. Roedd y gwobrau’n gyfle i gydnabod yr arwyr anhysbys ar draws Castell-nedd Port Talbot sy’n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i’n cymunedau. Cwblhawyd cyfnod dau o ‘Lwybr Teithio Llesol Llwybr Halio Camlas Nedd’ (o Stryd y Bont, Castell-nedd, i Lansawel) a lansiodd Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Mwy Diogel ymgyrch i helpu pobl i adnabod ac osgoi maglau rhoi benthyg arian yn anghyfreithlon.

Fodd bynnag, yng nghanol mis Mawrth 2020, cychwynnodd y Cyngor ymateb brys i’r argyfwng cenedlaethol oedd yn datblygu oherwydd COVID-19. Cafodd hyn effaith aruthrol ar gyflwyno ein gwasanaethau. Caeodd rhai o’n gwasanaethau i lawr er mwyn helpu i atal yr haint rhag ymledu, tra newidiodd gwasanaethau eraill er mwyn i wasanaethau hanfodol fedru gweithredu’n ddiogel. Ar ben hynny, sefydlwyd gwasanaethau newydd i gynnal ein cymunedau trwy’r argyfwng. Ni fuasai modd cyflawni hyn heb ymroddiad eithriadol gan weithlu’r Cyngor a’r bartneriaeth gref rhwng y Cyngor a’r undebau llafur.

Rwy’n eithriadol o falch o sut mae gweithlu’r Cyngor a’n cymunedau wedi addasu i’r cyfyngiadau llym mae pawb ohonom wedi’u hwynebu. Mae’r ymdrechion ar draws y fwrdeistref sirol i gynnal gwasanaethau hanfodol a chefnogi’r rhai sy’n wynebu’r risg fwyaf wedi bod yn eithriadol. Byddwn i’n hoffi diolch nid yn unig i gyflogeion y Cyngor, a ddaeth i’r adwy yn ystod y pandemig hwn, ond hefyd i’r gwirfoddolwyr yn ein cymunedau a roddodd o’u hamser i gefnogi trigolion bregus y fwrdeistref. Diolch unwaith yn rhagor.

**Y Cynghorydd Rob Jones, Arweinydd y Cyngor**

Mae’r Adroddiad hwn ar gael yn Saesneg. Ceir adroddiad manylach ar gynnydd yn Adroddiad Blynyddol 2019-20.

# Crynodeb o gyflawniadau 2019/2020



## Crynodeb Cyffredinol o Berfformiad

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da wrth weithredu'r rhaglen a gyflwynwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2019-2022. At ei gilydd mae 68 (82%) o'n 83 'cam', h.y. y camau gweithredu a nodwyd gennym ar gyfer cyflawni ein blaenoriaethau gwelliant yn cyrraedd y nod, mae 13 (16%) o'r camau yn agos at hynny, a 2 yn unig sydd heb gyrraedd y nod. Y llynedd adroddwyd bod 78 (83%) allan o 94 o 'gamau' yn cyrraedd y nod, 15 (16%) yn agos at hynny, ac 1 heb gyrraedd y nod.

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd i gymharu perfformiad â blynyddoedd ariannol blaenorol a Chynghorau eraill. Cafodd ein cyfres bresennol o 55 Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPIs) yn y Cynllun Corfforaethol ei haddasu o nifer mwy yn 2018-19 ac o ganlyniad i'r diwygio hwnnw nid yw cymharu 'tebyg a thebyg' â pherfformiad cyffredinol Dangosyddion Perfformiad Allweddol y flwyddyn flaenorol yn briodol, ond darparwyd ffigurau crynodol 2018-19 isod.

O'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn 2019-20 lle mae gwybodaeth am y flwyddyn flaenorol ar gael, bu 63% (32 o 51) yn gwella neu'n cynnal perfformiad (bu gwelliant yn achos 44% yn 2018-19), gwelwyd dirywiad bychan yn achos 14% (7 o 51) ac roedd gostyngiad o 5% neu fwy yn achos 23% (12 o 51). O Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Cynllun Corfforaethol oedd â thargedau, cyflawnwyd y targed gan ychydig dros hanner (54%), 26 o 48, sef yr un lefel ag yn 2018-19 (cyflawnodd 54% y targed). Roedd 12 o KPIs 2019-20 5% neu fwy o dan y targed a bennwyd.

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn cymharu perfformiad ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn erbyn y gyfres genedlaethol o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs). Oherwydd pandemig COVID-19 ni chasglwyd set ddata 2019-20 gan Data Cymru felly nid oes modd gwneud cymhariaeth o'r fath ar gyfer 2019-20. Fodd bynnag, mae ein perfformiad o ran y Mesurau hyn yn ystod 2019-20 wedi'i gynnwys yn adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol ein Cynllun Corfforaethol.

Yn 2019-20, fe gyflawnwyd ein targed o ran arbedion cyllideb, sef £5.803 miliwn, gan ddod â'r gostyngiad gwariant cronnol ers 2010 i ryw £95 miliwn. Cyfanswm y gwariant refeniw net oedd £287.999 miliwn.

**Amcan Llesiant 1:** Gwella llesiant plant a phobl ifanc: *"Bod ein holl blant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, er mwyn iddyn nhw fod y gorau gallan nhw fod"*



**Blaenoriaethau Gwelliant:**

1.1 Bydd plant yn eu blynyddoedd cynnar yn elwa o raglenni cyn-ysgol integredig ac effeithiol sy'n mwyafu eu llesiant a'u parodrwydd i ddysgu.
1.2 Bydd teuluoedd sy'n cael trafferth i ddarparu rhianta da ar gyfer eu plant yn cael cefnogaeth wedi'i theilwra
1.3 Bydd plant oed ysgol yn fwy diogel, yn iachach ac wedi ymgysylltu â'u dysgu
1.4 Bydd plant a phobl ifanc sydd angen amddiffyniad, gofal a chefnogaeth yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu, a bydd mwy o'r plant hynny'n gallu tyfu i fyny yng nghyd-destun teulu sefydlog
1.5 Bydd pobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn yn cael cyfle i fynd i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach/uwch
1.6 Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu helpu i leisio barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw
1.7 Bydd plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

**Cynnydd cyffredinol:**

Nodwyd 27 'cam' i'n helpu i gyflawni'r blaenoriaethau gwelliant uchod ar gyfer yr amcan llesiant hwn, ac mae 23 (85%) ohonynt yn cyrraedd y nod, 2 yn agos at hynny, a 2 heb gyrraedd y nod. Y llynedd (2018-19) roedd 28 o 31 (90%) 'Cam' yn cyrraedd y nod yn achos Amcan Llesiant 1.

**Beth sy'n mynd yn dda?**

- Fe welson ni fwy na 1,000 o rieni sy'n gweithio ar draws Castell-nedd Port Talbot yn gwneud cais llwyddiannus am y 'Cynnig Gofal Plant i Gymru' (datganiad i'r wasg) ac fe gynhalion ni nifer o weithgareddau i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ein lleoliadau gofal plant. Talwyd cyfanswm o £1.934 miliwn i ddarparwyr gofal plant am 429,834 awr o ofal plant.
- Ychwanegwyd 143 o sesiynau Bookstart mewn llyfrgelloedd a llyfrgelloedd cymunedol a 7 mewn cylchoedd chwarae.
- Cynhaliwyd digwyddiad gweithdy y 1,000 diwrnod cyntaf ar gyfer rheolwyr a phartneriaid gwasanaethau allweddol. Cyn y digwyddiad a drefnwyd, ymatebodd 230 o rieni i'r holiadur ar-lein ac fe lywiwyd y gweithdy gan eu hadborth. Yn dilyn y gweithdy ac adborth cynhyrchwyd cynllun cyflawni i symud ymlaen gyda chamau gweithredu a nodwyd.
- Cafodd 1,200 o unigolion fynediad at gefnogaeth Teuluoedd yn Gyntaf. Roedd 88% o'r cyfranogwyr yn teimlo bod y gwasanaeth y cawson nhw fynediad iddo o fudd iddyn nhw, gyda 91% yn teimlo eu bod wedi cyflawni'r canlyniad a nodwyd.
- Mae gwaith wedi cychwyn ar brosiectau Band B sy'n cynnwys gwaith adeiladu ar gyfer Cefn Saeson (datganiad i'r wasg), adnewyddu Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe (datganiad i'r wasg) a chymeradwyo ysgol gynradd newydd Abbey Primary (datganiad i'r wasg).
- Mae 208 o bobl a 98 o bartneriaid wedi ymgysylltu â model Cymuned y Plant yn ward Gorllewin Sandfields.
- Fe wnaethon ni waith datblygu pellach ar ddull gweithredu amlasiantaeth fel rhan o'r ddarpariaeth "Drws Ffrynt" i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n troi aton ni gyda phroblemau iechyd meddwl/llesiant emosiynol.
- Mae 98.8% o asesiadau plant y gwasanaethau plant yn cael eu cwblhau'n brydlon.
- Rydym wedi datblygu ein Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc yn unol â'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol newydd, ac rydyn ni wedi dathlu cyfraniad neilltuol gofalwyr maeth, cyflwynwyd 23 o wobrau i ofalwyr maeth sengl a chyplau am eu cyfnod o wasanaeth.
- Yn rhanbarthol, fe wnaethon ni sicrhau cyllid ychwanegol (£35 miliwn) i redeg prosiect Cynnydd tan fis Rhagfyr 2022 ac rydyn ni'n amcangyfrif y byddwn ni'n gweithio gyda 7,500 o bobl ifanc ar draws De-orllewin Cymru.

Nod y prosiect yw gweithio gyda'r rhai rhwng 11 a 24 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET (heb fod mewn addysg, chyflogaeth na hyfforddiant) ac mae ein ffigur NEET wedi gostwng i 2.15%.

- Bu'r gwasanaeth ieuenctid yn ymgysylltu â 6,754 o bobl ifanc yn ystod 2019-20, o gymharu â 5,047 yn ystod 2018-19.
- Ein Gwasanaeth Ieuenctid a Phartneriaeth Meddwl am y Teulu (*Think Family*) oedd y cyntaf yng Nghymru i ymrwymo i'r Siarter Cyfranogiad Genedlaethol ac maent wedi derbyn y Nod Barcud Cenedlaethol am Gyfranogiad, cyflawniad uchel ei fri, am sut maen nhw'n annog plant a phobl ifanc i leisio barn ar ddylunio a chynllunio'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu.
- Bu 1,600 o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn cyfranogi yn nigwyddiad Criw Croch eleni ym mis Mehefin 2019, oedd yn cynnwys sesiwn ar ddiogelwch ar y rhyngrwyd a sesiwn ar seiberdroseddu. Dosbarthwyd cyflwyniad Seiberdroseddu i'r holl ysgolion i'w ledaenu.
- Cyflwynodd y Tîm Diogelwch Ffyrdd raglen gynhwysfawr o addysg a hyfforddiant ar gyfer defnyddwyr y ffyrdd a lansiwyd ymgyrch ysgol gynradd lawn yn hydref 2019. Mae data blwyddyn galendr 2019 yn dangos ein bod ni'n adrodd am ostyngiad o 91% ar hyn o bryd yn erbyn targed Llywodraeth Cymru o ran nifer y plant (0-15 oed) a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol a gostyngiad o 93% yn erbyn y targed ar gyfer gyrwyr ifanc (16-24 oed). Ni chafodd unrhyw feicwyr pedal (pob oed) eu lladd na'u hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd yn ystod blwyddyn galendr 2019.

**Meysydd lle mae angen rhagor o waith:**

- Dull gweithredu mwy targedig o ddarparu gwasanaeth i'r plant hynny y bernir eu bod 'Ar Ffin Gofal'.
- Parhau i ddarparu lleoliadau gwaith, prentisiaethau a chyfleoedd i fod yn hyfforddeion ar gyfer pobl ifanc yn ein gweithlu.
- Estyn pecynnau gwersi oed-briodol ar Berthnasoedd Iach ar draws yr ysgolion dros amser.
- Ni wnaeth peth o'r gwaith roedden ni wedi'i gynllunio i hybu ymwneud gweithredol pobl ifanc â'r broses ddemocrataidd unrhyw gynnydd oherwydd yr etholiad annisgwyl i Senedd y Deyrnas Unedig.

**Amcan Llesiant 2:** Gwella llesiant yr holl oedolion sy’n byw yn y fwrdeistref sirol: *“Bod pawb yn cyfranogi’n llawn ym mywyd y gymuned – yn gymdeithasol ac yn economaidd”*



**Blaenoriaethau Gwelliant**

2.1 Bydd pobl leol yn gallu cael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy, leol, o safon
2.2 Bydd pobl leol yn gallu cael mynediad i dai fforddiadwy o safon
2.3 Bydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo’n ddiogel
2.4 Bydd pobl sy’n methu gweithio yn gallu mwyafu eu hincwm
2.5 Bydd pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn cael help i ddatblygu eu gwydnwch, a mynediad at gefnogaeth yn eu cymuned. Os dim ond y gwasanaethau cymdeithasol sy’n gallu diwallu eu hanghenion, byddan nhw’n derbyn gwasanaethau personol ganddynt
2.6 Bydd pobl yn gallu lleisio barn ar faterion sy’n effeithio arnyn nhw, a lle mae angen help ar bobl i leisio barn, bydd cefnogaeth ar gael ar ffurf eiriolaeth

**Cynnydd cyffredinol:**

Nodwyd 31 o ‘gamau’ i’n helpu i gyflawni’r blaenoriaethau gwelliant uchod ar gyfer yr amcan llesiant hwn, ac mae 26 (84%) ohonynt yn cyrraedd y nod, a 5 yn agos at hynny. Y llynedd (2018-19) roedd 28 o 35 (80%) ‘Cam’ yn cyrraedd y nod yn achos Amcan Llesiant 2.

**Beth sy'n mynd yn dda?**

- Rhagorodd prosiect Gweithffyrdd+ ar ei darged ar gyfer darparu cefnogaeth i'r unigolion hynny sy'n cymryd eu camau cyntaf at gyflogadwyedd, ac yn rhanbarthol cymeradwywyd £3.8m (£3m o arian grant) gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i gyflwyno Diweithdra Tymor Byr (STU) Gweithffyrdd+ tan fis Awst 2023.
- Cynorthwywyd 728 o ymholiadau busnes, gan roi cyngor, gwybodaeth neu gefnogaeth ariannol i gwmnïau presennol.
- Cynorthwywyd 273 o fusnesau newydd i gychwyn, cafodd 168 o bobl gyngor ar gychwyn eu busnes eu hun trwy'r Clybiau Menter, a chefnogwyd 34 o fusnesau cychwynnol trwy raglen Innov8 y Cyngor.
- Bu cynlluniau Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy yn helpu cyfanswm o 1,278 o bobl i ddychwelyd i waith, hyfforddiant neu wirfoddoli. Rhagorodd y ddau gynllun yn sylweddol ar eu targedau.
- Daliwyd ati i ddarparu cefnogaeth effeithiol gyda thai ar gyfer pobl y nodwyd bod angen help a chefnogaeth ychwanegol arnynt.
- Lleihawyd yr amser a gymerir ar gyfartaledd i gwblhau grant cyfleusterau i'r anabl i 196 o ddiwrnodau (232 o ddiwrnodau y flwyddyn flaenorol).
- Roedd 95.15% o sefydliadau bwyd yn bodloni safonau hylendid bwyd gradd 3 neu uwch.
- Cytunodd y Cyngor i barhau â chynllun cymorth treth y cyngor (datganiad i'r wasg) i helpu'r trigolion mwyaf bregus.
- Mae 99.96% o'r grantiau budd-dal yn cael eu dyfarnu'n gywir ac ar gyfartaledd ar hyd y flwyddyn mae'n cymryd 2.3 diwrnod i asesu hawliadau newydd a newid amgylchiadau, sy'n sylweddol is na'n targed o 6 diwrnod.
- Comisiynwyd ymchwil i sicrhau cipolwg cliriach ar effaith diwygio budd-daliadau lles ar bobl leol.
- Bu Chwarae Teg yn asesu polisïau ac arferion cydraddoldeb rhywedd y Cyngor, gan gynnwys arolwg o weithlu'r Cyngor, a dyfarnwyd y Wobr Arian am Amrywiaeth Rhywedd i ni. Mae'r dyfarniad hwn yn cydnabod bod gan y Cyngor ymrwymiad clir i wneud gwahaniaeth ym maes recriwtio, cadw a chynnydd benywod yn y gweithle.
- Mae gwaith wedi parhau ar hyd y flwyddyn i gysoni prosesau rhwng gwasanaethau drws ffrynt Oedolion a Phlant. Bellach mae fersiwn derfynol o ffurflen 'Atgyfeirio Sengl' ar gael i'w defnyddio gan Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Oedolion.

- Bellach mae arweinydd penodol ar gyfer Anhwylderau Sbectrwm Awtistig (ASD) a nodwyd, a fydd yn rhoi'r cynllun ASD strategol ar waith yn y sir er mwyn gwella bywydau pobl ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr.
- Cyflwynwyd Strategaeth Ofalwyr ddrafft i Fwrdd Cabinet Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant ar 12 Mawrth 2020 a'i chymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad 90 diwrnod. Mae'r ymgynghoriad wedi cael ei oedi oherwydd pandemig COVID-19 a bydd yn cychwyn cyn gynted â phosibl.
- Rydym ni'n parhau i fesur canlyniadau ar gyfer y bobl â'r anghenion mwyaf cymhleth fesul achos, ac fe gynyddwyd nifer yr adolygiadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth i 1,518 yn 2019-20.

**Meysydd lle mae angen rhagor o waith:**

- Mae nifer yr unedau tai newydd a gyflwynwyd trwy'r system gynllunio yn dal yn sylweddol is na thargedau'r Cynllun Datblygu Lleol, a hynny'n bennaf oherwydd yr encilio economaidd. Cychwynnodd adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) cyfredol ym mis Ionawr 2020. Y cynnig yw y bydd y CDLl Amnewid yn cwmpasu cyfnod o 2020-2035 yn y cynllun.
- Parhau i weithio gyda'r holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCCiaid) a darparwyr cymorth trydydd sector i achub tenantiaethau a darparu cefnogaeth i atal digartrefedd.
- Ni oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i weithredu polisi 'Absenoldeb Diogel' ar gyfer staff sy'n dioddef effaith unrhyw fath o Gam-drin Domestig, gan roi cyfle iddyn nhw gael mynediad at wasanaethau cymorth, cyngor cyfreithiol, tai amgen neu gymorth meddygol mewn modd diogel, wedi'i gynllunio. Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith i leihau nifer yr atgyfeiriadau eildro risg uchel sy'n dod i'r gwasanaeth.
- Mae gwaith yn parhau i ddeall yn llawnach achosion gwaelodol y gyfradd uchel o farwolaethau cysylltiedig â chyffuriau yn yr ardal.
- Mae cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty wrth ddisgwyl am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed wedi cynyddu. Cafodd y Model 'Hospital to Home' (H2H) a lansiwyd ar 10 Rhagfyr 2019 ei wella ymhellach i gefnogi pobl i adael yr ysbyty'n gyflym. Ers COVID-19, mae'r model wedi datblygu ymhellach i greu model rhyddhau cyflym.

**Amcan Llesiant 3:** Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl: *"Bydd bwrdeistref sirol gyfan Castell-nedd Port Talbot yn lle bywiog, iach a diogel i fyw, gweithio a mwynhau amser hamdden ynddo"*



**Blaenoriaethau Gwelliant**

3.1 Byddwn ni'n darparu amgylchedd lle gall busnesau newydd ymsefydlu a lle gall busnesau presennol dyfu
3.2 Byddwn ni'n gweithio gyda chymunedau i gynyddu ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio
3.3 Gall pobl leol ac ymwelwyr gael mynediad at gyfleusterau hamdden a chymunedol da, parciau gwledig a chefn gwlad
3.4 Nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy yng nghymunedau ein cymoedd
3.5 Amddiffyn, cadw a gwella ein hamgylchedd naturiol (gan gynnwys tirweddau, cefn gwlad, cynefinoedd a rhywogaethau pwysig) gan gynyddu ymwybyddiaeth o'i werth ac annog cyfranogiad ehangach
3.6 Cyflawni cyfraniad cadarnhaol i'r agenda gynllunio ranbarthol
3.7 Hybu a chyflwyno hygyrchedd cynaliadwy a gwella cysylltedd a chysylltiadau cyfathrebu
3.8 Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i wella cysylltedd a seilwaith ar draws y fwrdeistref sirol

**Cynnydd cyffredinol:**
Nodwyd 25 o 'gamau' i'n helpu i gyflawni'r blaenoriaethau gwelliant uchod ar gyfer yr amcan llesiant hwn, ac mae 19 (76%) ohonynt yn cyrraedd y nod a 6 yn agos at hynny. Y llynedd (2018-19) roedd 22 o 28 (78.6%) o 'gamau' yn cyrraedd y nod yn achos Amcan Llesiant 3.

**Beth sy'n mynd yn dda?**

- Bu'r gwaith adfywio yn parhau, gyda gwaith i ddatblygu canol tref Castell-nedd yn cychwyn, cwblhau prosiect Glannau'r Harbwr (llys yr ynadon gynt), rhoi cynlluniau ar waith i ddatblygu Sinema'r Plaza, ac mae gwaith ailddatblygu wedi cychwyn ar safle hen adeiladau Crown. Rydym ni'n dal mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i wneud cais am gyllid wedi'i ddiogelu ar gyfer rhaglenni adfywio.
- Cafodd 610 o swyddi eu creu/diogelu o ganlyniad i gefnogaeth ariannol gan y Cyngor, sef cynnydd o 34% ar y flwyddyn flaenorol, a mwy na dwbl y targed ar gyfer y flwyddyn.
- Fe wnaethon ni ddarparu cyngor a chymorth i 6 unigolyn oedd yn ceisio sefydlu menter dwristiaeth newydd a chyngor i 56 o gwmnïau twristiaeth presennol.
- Llai na 3 diwrnod ar gyfartaledd i glirio sbwriel a gafodd ei ollwng yn anghyfreithlon a gostyngiad o 23% yn yr achosion yr adroddwyd amdanynt. Gorfodi gwastraff gweithredol sy'n gyfrifol am y gwelliant hwn, a'r ffaith bod y tîm yn cydweithio'n agos â'r timau glanhau ardal i sicrhau bod yr holl sbwriel nad oes modd gwybod pwy ollyngodd e yn cael ei glirio cyn gynted â phosibl; a mynd ar ôl y lefel uchaf o gamau gorfodi yng Nghymru yng nghyswllt gollwng sbwriel yn anghyfreithlon.
- Yn y cymoedd cymeradwywyd 18 o geisiadau ariannu ar gyfer busnesau presennol ac i gychwyn busnesau newydd, gyda'r posibilrwydd o greu 78 o swyddi.
- Cyflwynwyd rhaglen o blannu coed fel rhan o'r prosiect 'Coed i Ysgolion' trwy grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant. Crëwyd dyluniadau ar gyfer 11 o ysgolion a'u cyflawni, gan gynnig digwyddiadau plannu addysgol ymarferol i bob ysgol, fel bod rhyw 5,000 o goed ifanc a 115 o goed aeddfed wedi'u plannu.
- Yn ystod y 3 blynedd diwethaf, mae 776 o bobl wedi ymgysylltu â'r 'Prosiect Gweithio gyda Natur' sy'n derbyn arian grant, ac mae dros 30 o wirfoddolwyr wedi ymuno.
- Buon ni'n gweithio mewn partneriaeth â nifer o grwpiau hanes lleol i ddatblygu prosiectau a'u cynorthwyo gyda cheisiadau am arian; buon ni hefyd yn helpu TATA i ddylunio a gosod cofeb ym Mharc Talbot i'r rhai a gollodd eu bywydau yn y gwaith.
- Mae nifer yr ymweliadau â'n theatrau wedi cynyddu'n sylweddol, 17%.
- Penderfynwyd ynghylch 97.4% o'r holl geisiadau cynllunio yn brydlon (o fewn 8 wythnos).

- Roedd yr achosion o dorri'r trothwyon ansawdd aer (PM10) yn sylweddol is na'r targed o 35 y flwyddyn.
- Cwblhawyd cyfnod dau o 'Lwybr Teithio Llesol Llwybr Halio Camlas Nedd' (o Stryd y Bont, Castell-nedd, i Lansawel), a dyfarnwyd £334,000 o gyllid craidd teithio llesol i Gastell-nedd Port Talbot ar gyfer 2019-20.
- Cyflawnwyd ein targedau ar gyfer y flwyddyn yng nghyswllt cyflwr ein ffyrdd A, B ac C.
- Mae natur strategol a chroestoriadol y gwaith cynhwysiad digidol mae BGC Castell-nedd Port Talbot yn ei wneud wedi'i nodi gan Gymunedau Digidol Cymru fel enghraifft o arfer da.

**Meysydd lle mae angen rhagor o waith:**

- Cynhyrchodd newidiadau a gyflwynwyd y llynedd i strategaeth wastraff y Cyngor enillion perfformiad, yn arbennig, cynyddu'r casgliad gwastraff bwyd 600 o dunelli a lleihau gwastraff 'bagiau du' wrth ymyl y ffordd 4000 o dunelli. Fodd bynnag, gwrthweithiwyd yr enillion hyn i raddau helaeth gan ffactorau allanol. Canlyniad dros dro ein perfformiad ailgylchu yw 61.74% ar gyfer 2019-20, yn erbyn targed statudol Llywodraeth Cymru o 64%.
- Rydym ni'n dal i weithio gyda Celtic Leisure a monitro'u perfformiad, er mwyn sicrhau bod y model ymddiriedolaeth hamdden yn cyflwyno darpariaeth o safon a gwerth am arian.
- Parhau i weithio gydag awdurdodau lleol rhanbarthol ar ffrydiau gwaith fel yr Astudiaeth Cyflogaeth Ranbarthol, a fydd yn nodi'r angen am dir cyflogaeth a'r cyflenwad ohono.
- Parhau i weithio ar y cyd ag awdurdodau cymdogol i bennu cwmpas a chyflawni Cynllun Datblygu Strategol.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i wella'r seilwaith digidol a chysylltedd ar draws y fwrdeistref sirol.
- Parhau i hyrwyddo Rhaglen Band Eang Cyflym Cymru Llywodraeth Cymru.

**Rhowch eich barn ar y pethau sy'n bwysig i chi**

Rydym ni'n croesawu adborth ar yr wybodaeth yn y crynodeb hwn trwy:

E-bost: policy@npt.gov.uk neu drwy'r post: Y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ

Mae gennym ni hefyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori/ymgysylltu ynghylch amrywiol wasanaethau yr ydym ni'n eu hyrwyddo yn y wasg ac ar y wefan; gallwch chi gael mynediad iddyn nhw trwy'r ddolen hon: http://www.npt.gov.uk/dweudeichdweud

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Ewch i wefan y Cyngor: www.npt.gov.uk

Dilynwch ni ac ychwanegu eich sylwadau ar dudalen Facebook y Cyngor: https://www.facebook.com/CyngorCnPT

Dilynwch yr adroddiad hwn ac ychwanegu eich negeseuon Trydar ar ein Tudalen Twitter: @CyngorCnPT

Dilynwch ni ar Instagram: https://www.instagram.com/nptcouncil/

Os bydd angen yr wybodaeth hon arnoch chi mewn print mwy neu fformat arall, cysylltwch â'r Tîm Polisi Corfforaethol ar 01639 763172 neu e-bostiwch: policy@npt.gov.uk